# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT Ffôn: 01492 515999 Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YM MHAFILIWN CHWARAEON ,
BETWS YN RHOS YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, 6ed O FAWRTH, 2023.**

## 1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS pawb i'r cyfarfod, ac estynnodd gydymdeimlad yr aelodau i Mary, gwraig y Cynghorydd John EVANS yn dilyn marwolaeth ei brawd. Dywedodd hefyd for y Cynghorydd John D ROBERTS yn aros am law driniaeth angenrheidiol ac ei bod yn bosib na fyddai mewn sefyllfa ddigon da i fynychu cyfarfodydd y Cyngor am beth amser nes y bydd wedi derbyn y triniaeth mae ei angen.

## 2. YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr John EVANS;; D Gwyn JONES; Hefin WILLIAMS; Goronwy R. WILLIAMS;; Bryn JONES; Cynghorwr Sir Ifor G WILLIAMS.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr John D ROBERTS; Glenna HUMPHREY; Gethin OWEN.

## 4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD wedi dweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un.

## 5. MUNUDAU

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed o Chwefror, 2023. (Cynnig y Cynghorydd D Gwyn JONES ac eilwyd gan y Cynghorydd Hefin WILLIAMS).

## 6. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

## 7. CYLLID

a. Cafwyd Adroddiadau Misol am y cyfnod dod i ben 20fed o Chwefror 2023. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

(1) Cyfrif Cymunedol = £9,055.20 (Dwyn Ymlaen)
Arian i Mewn = £652.00 (CBSC Grant Canolfan Clyd)
= £484.51 (CBSC Ad-daliad Grant Pentrefi Taclus – 200151)
Arian Allan = £5.00 (Costau Banc - DR)
= £40.00 (ICO GDPR – Tal Blynyddol – 200151)

= £405.39 (Cyflog y Clerc – SO)

= £101.40 (Taliad i'r HMRC – SO)
= £185.50 (Anrhegion Nadolig plant y pentref)
Heb ei Cyflwyno = Dim
Cyfrif Cymunedol = £9,454.42 (Cludwyd Ymlaen)4

(2) Cyfrif Busnes = £5,559.52 (Dwyn Ymlaen)
Arian Allan = £0.00
Arian i Mewn = £0.00
Cyfrif Busnes = £5,559.52 (Cludwyd Ymlaen)
Cyfanswm = £15,013.94

Cytunodd pawb a'r adroddiadau yma.

b. Ynglun a bancio ar-lein mae'r Clerc yn nawr yn talu dylebau ar lein ble yn bosib. Mae trefniadau wedi ei gwneud i brosesu rhai taliadau rheolaidd drwy D/D a S/O.

**8. GOHEBIAETH**

**i. Derbynwyd**

a. Llythyr gan y Gwasanaeth Iechyd gyda gwybodaeth am wasanaethau fasgwlaidd yng Ngogledd Cymru.
b. Llythyr gan CNC Coedwig Cenedlaethol Cymru yngun a grant Buddsoddi mewn Coetir.
c. Llythyr gan CBSC ynglun a chynllun ECO-Flex.
ch. Cais am adroddiad blynyddol o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd 2016.
d. Llythyr gan Mr. Rod King yn gofyn am gefnogaeth i ostwng ffin cyflymdra o 30mya i 20mya drwy Gymru gyfan.
ad. Cais am wybodaeth gan CBSC am raglan Gwaith cyfalaf ailwampio priffyrdd 2023-2024.
e. Amcan bris gan GL Jones cyf am offer chwarae i gae chwarae Betws.
f. Amcan bris gan Creative Play am offer chwarae i gae chwarae Betws.
af. Llythyr o ddiolch gan Gwmni Drama Betws yn Rhos am y rhodd ariannol.
g. Gwahoddiad gan CVSC gyfarfod 'Cyfarfod y Cyllidwr'
ng. Llythyr gan BT am ddyddiad y cyflenwad WiFi i Bafiliwn Chawaraeon Betws.
h. Llythyr gan Grwp Cynefin i ddilyn i fynny ar gyfarfod rhithiol am Hwylusrwydd Tai Gwledig.
i. Llythyr gan Gwasanaethau Hamdden CBSC yn gofyn a fyddai pentref Betws angen dwy sesiwn o 'Chwarae Allan' yn ystod gwyliau haf 2023.
j. Arolwg Anghenion Hyfforddiant Cynghorau Cymuned.

**ii. Anfonwyd**

a. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
b. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

c. Llythyr i adran AFFCH CBSC yn gofyn am adnewyddu yr arwyddion ffordd ar y B5381 Ffordd Dolwen, Betws yn Rhos yn ymyl cyffordd Capel Sion.
d. Cais i CVSC am grant tuag at brojectau yn y dyfodol yn ardal y Cyngor.

**9. GRANTIAU**

**i. Ceisiadau i'r Cyngor – y symiau i'w cadarnhau a'i cyhoeddi pan fydd y Praesept wedi ei gytuno.**

a. Ty Gobaith

b. Henoed Llanelian

c. Mynwent Trofarth
ch. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru
d. Urdd Gobaith Cymru

ad. Eisteddfod Calan Mai

e. Cymdeithas Hanel Lleol Betws a Llanelian.

**ii. Caisiadau gan y Cyngor**

a. Lleoedd LLeol ar Gyfer Natur - tuag at blannu blodau gwyllt ayyb yn ymyl Pafiliwn y cae chwarae yn Betws yn Rhos. Bu hwn yn llwyddianus a mae'r pecyn wedi cyrraedd. Yn dilyn trafodaeth gyda rhai o drigolion pentref Betws yn Rhos penderfynwyd ei rhoi wrth fynedfa y caeau chwarae a bydd hyn yn cymeryd lle o few y bythefnos nesaf..

b. Offer y cae chwarae. Bydd rhaid edrych am grant sylweddol i gael offer newydd. Mae'r Clerc wedi cael cael dyfynbris gan gwmniau offer chwarae ac mae rhain o gwmpas £16,000. Bydd hyn yn galluogi dechrau chwilio am ffynonhellau i ariannu yr offer.

c. Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

**10. CYNLLUNIO - [http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer](http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer)**

a. Cyfeirnod: 0/50483 Ymgeisydd: Andrea and Keith Owen
Cynllun: Estyniad unllawr i'r ochr a gwaith cysylltiedig Safle: Tan Y Bryn Bach Tan Y Bryn Bach Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NT
Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais yma.
b. Cyfeirnod: 0/50493 Ymgeisydd: Mr Arwel Evans
Cynllun: Sied amaethyddol newydd a gwaith cysylltiol
Safle: Glan Aber Cilgwyn Road Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay Conwy LL29 8YR
Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais yma.
c. Rhif y Cais: 0/50362 Ymgeisydd: Mr Barry McDowell
Natur y Cais: Llawn Derbyniwyd : 18/11/2022 Cofrestrwyd: 10/01/2023
Natur y Datblygiad: Datblygiad Newydd
Dosbarth Etholiadol: Betws Yn Rhos Cyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Betws-yn-Rhos

Lleoliad: Tir yn Bron Derw Betws Yn Rhos Conwy LL22 8FD Cais: Codi annedd newydd a gwaith cysylltiedig

Disgwyl am wybodaeth ychwanegol ynglun a maint, mesurau, a nifer ffenestri er mwyn gwneud yn siwr nad yw yn ormodol I'r safle ac yn gweddu gyda'r ardal.

ch.Cyfeirnod: 0/50531 Ymgeisydd: Gareth Williams

Cynllun: Estyn y sied amaethyddol i ddarparu storfa slyri fel y nodir yn natganiad o anghenion y cleient.

Safle: Bethgeth Cill Llidiart Road Betws Yn Rhos LL22 8AG

Angen mwy o wybodaeth am gynnwys adroddiad SUDS (cyflenwad dwr tai gerllaw yn tarddu o'r cae yma), ac hefyd y ddadl busnes am faint yr adeilad hwn

**11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

Mae'r Clerc yn aros am ganlyniad yr Archwiliad Allanol (Archwiliad Cymru). Yn dilyn galwadau ffon mae'n amlwg y bu i dipyn o broblem fod gyda Archwiliad Cymru y flwyddyn diwethaf, a mae hyn wedi achosi oedi hir i rai archwiliadau. Cafwyd dim ateb i alwadau ffon ychwanegol yn y cyfamser. Tynnir yr item yma oddi ar yr agenda hyd nes daw gwybodaeth pellach i law.

**12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

a. Mae diffyg o 23% yn y gyllideb ariannol yn 2023. Bydd treth Cyngor Conwy 2023-2024 yn cael ei chyhoeddi yn fuan a bydd hynny yn adlewyrchu y pwysau presenol yn enwedig ar Ofal Cymdeithasol.

**13. CYFARPAR AR GYFER GWNEUD Y CYFARFODYDD YN RHITHIOL**

Er mwyn cynwysiedigaeth, mae angen edrych ar ffordd o alluogi aelodau o'r Cyngor a'r cyhoedd gymeryd rhan yn y cyfarfodydd yn rhithiol. Gan fod y Cyngor Cymuned yn cynnal ei cyfarfodydd y ym Mhafiliwn Chwaraeon betws yn Rhos o hyn ymlaen bob yn ail a Llanelian, bydd BT yn rhoi lein newydd i'r Pafiliwn yn yr wythnos nesaf ac yn fuan wedyn fe roddir y cyfarpar angenrheidiol yn yr adeilad ar gyfer cyfarfodydd rhithiol.

**14. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL**

a. Arwydd ffordd ar gornel Capel Bach Sion – Mae cais wedi ei wneud i adran AFFCH CBSC i adnewyddu yr arwyddion yma.

b. Cyfarpar chwaraeon i blant iau ar gae chwarae Betws yn Rhos – Mae amcan bris wedi ei dderbyn er mwyn cael syniad o'r costau ac yn awr mae camau yn cael ei cymeryd I chwilio am grantiau. Bydd ymgynghoriad gymunedol yn cael ei gwneud yn fuan er mwyn penderfynny pa fath o offer sydd ei angen.

c. Gordyfiant ar lonydd gwyrdd a llwybrau lleol – hyd yn hyn cafwyd dim ymateb i am adborth ar gyflwr y llwybrau na dim cynnigion am y Llwybyr Natur.

ch. Y Ganolfan Gynnes – Mae mwy o bobol yn galw i mewn i'r Pafiliwn yn betws gyda tua 20 yno diwedd mis Chwefror. Gebeithir cadw y ganolfan i fynd hyd mis Ebrill neu fis Mai.

d. Gweithdai drama yn Neuadd Bentref Betws. – Mae hyn wedi bod yn llwyddiant gyda'r grwp yn dangos ei talentau yn y cymunedau gerllaw. Gofynnir i bawb rhoi cymorth ac I fynychu y gweithdai yma.

ad. Cyflwr y ffyrdd yn yr ardal. – Gyrrwyd ateb i adran AFFCH CBSC o dan raglan Gwaith cyfalaf ailwampio priffyrdd 2023-2024.

e. Chwarae Allan Haf 2023. – mae'r Cyngor Cymuned wedi gwahodd Rhaglen Haf Ieuenctid cbsc i ddod iDifibrilwyr redeg dwy sesiwn ym Metws yn Rhos yn ystod gwyliau'r haf 2023.

f. Diffibrilwyr. – Mae archwiliad ar safleoedd a defnydd diffibrilwyr lleol yn cymeryd lle ar y funud a mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i dynu'r pump offer yma o dan yr un to er mwyn medru gweinyddu ei cynnal a'i cadw yn haws. Bydd hyn yn cael ei trafod ymhellach dros yr wythnosau nesaf.

**15. FFERM WYNT ALLTRAETH AWEL Y MOR & GWYNT Y MOR**

Mae'r Cyngor yn awr wedi ei cofrestru gyda Cwmni Awel y Mor fel cymdeithas sydd a diddordeb yn y broject er mwyn cael gwybodaeth reolaidd am y cynlluniau. Byddwn yn cadw golwg ar y datblygiadau. Mae prosiect arall ar y gweill yn awr hefyd sef Gwynt y Mor. Mae'n bosib y bydd y ceblau o'r brosiect hon yn cael ei gyrru drwy ranau o ardal Betws yn Rhos. Caiff yr item yma ei tynnu oddi ar yr agenda hyd nes bydd gwybodaeth newydd ar gael i'w drafod.

**16. YMGYRCH LEOL I REOLI FFERMYDD GWYNT**

Mae y pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor yma ond anodd iawn iw cymeryd unrhyw gamau pellach heb yna fod gais cynllunio ar gyfer fferm o'r fath yn cael ei gwneud i Gyngor Conwy. Os bydd hyn yn digwydd bydd y Cyngor yn ysgrifennu ar unwaith 'r CJC (Combined Joint Council) pan fydd y corff hwnnw wedi ei fodoli.

**17. LLWYBR NATUR**

Cynigwyd edrych ar yr hen ffordd porthmon ac hefyd yr hen ffordd rufeinig fel posibilrwydd o wneud llwybyr natur yn y fro. Mae angen cael cymorth gan rhywun sydd yn adnabod y llwybrau cyhoeddus lleol ac hefyd yn gwybod ar pa fath o fywyd natur a ddisgwylir iw weld ar hyd y llwybrau. Cynigwyd hysbysu ar y bordiau gwybodaeth, ar daflen we yr ardal ac hefyd gyda'r gymdeithas gerdded yn Y Gadlas. Does dim ymateb wedi bod i'r syniad yma hyd yn hyn. .

**18. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS**

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen. Mae Cyngor Conwy yn awr wedi caniatau parhau y brydles ac felly mae y broses o gael grantiau yn medru mynd ymlaen. Mae'r cynlluniau yn symud ymlaen yn gyflym ar y funudac edrychwn ymlaen I weld camau positif yn cymeryd lle dros y misoedd nesaf.

**19. Y GADLAS**

Gyrrwyd erthygl i'r Gadlas am lwybrau cyhoeddus yn yr ardal, i gynnwys camfeydd a gatiau.

**20. CYSIDRO AELOD YCHWANEGOL I'R CYNGOR**

Mae angen cysidro edrych am aelod newydd i'r Cyngor i lenwi'r bwlch sydd yn bodoli. Pawb i wneud ymholiadau i weld os oes unrhyw un a diddordeb.

**21. UNRHYW FATER ARALL**

a. Mae cwynion wedi dod i law am gyflwr bler rhai manau yn y gymuned. Bydd llygaid yn cael ei gadw ar y rhain a bydd gofyn i adran amgylchedd CBSC gymeryd camau pellach os bydd angen.

b. Mae grant o 85% wedi ei sicrhau tuag at roi paneli solar ar do Neuadd Bentref Betws yn Rhos a fydd yn gymorth tuag at gostau goleuo a thwymo yr adeilad. Bydd hefyd yn gamau lleol tuag at ein gofyniadau cymunedau gwyrdd.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.35y.h.

CADEIRYDD: …………………………… Irwedd Griffiths

CLERK: …………………………… Tom Jones DYDDIAD: 17eg Ebrill 2023